

Ffyniant heb Dlodi:

Fframwaith gweithredu yng Nghymru

Cyflwyniad

Dylai Cymru fod yn wlad lle mae gan bawb gyfle i gael bywyd gweddus a diogel. Yn hytrach, mae cannoedd o filoedd o bobl – nifer o deuluoedd sy'n gweithio – yn cael trafferth diwallu eu hanghenion sylfaenol. Gall unrhyw un bron wynebu tlodi: weithiau digwyddiadau annisgwyl fel profedigaeth, salwch, colli gwaith neu berthynas yn torri lawr yw'r cyfan sydd ei angen i wthio pobl i amgylchiadau y mae'n anodd dianc ohonynt.

Mae Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) wedi mynd ati i ateb y cwestiwn - beth sydd ei angen i wneud gwahaniaeth dramatig i dlodi. Ein nod erbyn 2030 yw:

- Nad yw unrhyw un ar y clwt ;
- Bod llai nag un o bob deg unigolyn mewn tlodi ar unrhyw adeg; ac
- Nad oes unrhyw un mewn tlodi am fwy na dwy flynedd.

Rydym wedi gweithio gydag arbenigwyr ym maes ymchwil ac ymarfer i ganfod beth sy'n gweithio, ac rydym wedi gwrandao ar y cyhoedd, yn cynnwys pobl â phrofiad personol o dlodi, gwleidyddion, busnesau, swyddogion y llywodraeth, melinau trafod ac elusennau. Y canlyniad yw strategaeth annibynnol, hirdymor ar gyfer y Deyrnas Unedig¹ wedi ei chefnogi gan adroddiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth y mae ein strategaeth yn seiliedig arni.²

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar y dystiolaeth honno a'r argymhellion allweddol ar gyfer y Deyrnas Unedig er mwyn sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu yng Nghymru. Mae'n cynnwys mesurau y dylai'r llywodraeth eu cymryd, yn cynnwys awdurdodau lleol yn ogystal â Llywodraeth Cymru; arferion y dylai busnesau eu mabwysiadu, fel cyflogwyr ac fel darparwyr nwyddau a gwasanaethau hanfodol, ac unedau llafur; camau y dylai elusennau, landlordiaid cymdeithasol ac eraill eu cymryd; a'r camau y dylai unigolion eu cymryd i helpu i leihau eu risg eu hunain o ddisgyn i grafangau tlodi. Hefyd rhaid i Lywodraeth y DU chwarae ei rhan, drwy systemau nawdd cymdeithasol effeithiol, gwell rheoleiddio, meithrin hinsawdd economaidd ffafriol a fframwaith ariannol a chyllidol teg i Gymru.

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth flaenorol Cymru wedi ymrwmo'n gadarn i fynd i'r afael â thlodi, ac o ganlyniad mae'n arwain y DU mewn rhai meysydd, fel ei hymagwedd at ddigartrefedd. Fodd bynnag, mae gostwng prif gyfradd tlodi cymharol o ran incwm wedi profi'n hynod o heriol yng Nghymru, fel pob man arall. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i sicrhau 'ffyniant i bawb', gan adlewyrchu ei hymdrech i wella canlyniadau ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.³ Yr un pryd, mae cyfyngiadau parhaus ar wariant cyhoeddus a'r heriau a'r cyfleoedd yn sgil gadael yr UE.

Mae ein fframwaith yn cymryd golwg ehangach ar dlodi na naill ai mesurau incwm-cymharol neu ddulliau amddifadedd ar sail ardal. Mae'n cydnabod tra bod yn rhaid i lywodraeth arwain, rhaid i bawb - yn cynnwys busnesau, cymunedau ac unigolion - chwarae rhan. Mae'n ystyried bod gweithredu i gynyddu ffyniant a lleihau tlodi'n rhan annatod o *bob* polisi cyhoeddus, nid gwasanaethau ategol mewn ardaloedd targed.

¹ JRF (2016) **We Can Solve Poverty in the UK**

² JRF (2016) **UK Poverty: Causes, Costs and Solutions**

³ Llywodraeth Cymru (2016) **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021**

Beth yw tlodi?

Bod mewn tlodi yw bod ag adnoddau sy'n bell islaw'r anghenion isaf. Mae tlodi'n cael ei achosi gan ddiffyg adnoddau - yn fwyaf amlwg, incwm - ond hefyd gan brisiau drud nwyddau a gwasanaethau hanfodol.

Diffiniad JRF o dlodi yw:

Pan fo adnoddau unigolyn yn bell islaw'r anghenion isaf, yn cynnwys yr angen i gymryd rhan mewn cymdeithas.

Mae'r diffiniad hwn yn rhoi profiadau unigol wrth galon tlodi. Mae ein risg o dlodi'n cael ei effeithio gan bwy ydym yn byw gyda nhw a sut mae adnoddau'n cael eu rhannu ac anghenion yn cael eu diwallu o fewn ein teulu, ein haelwyd a'n cymuned. Mae tlodi'n ddynamig; mae unigolion a theuluoedd yn symud i mewn ac allan o dlodi, mae pobl yn symud i mewn ac allan o aelwydydd.

Fel y disgrifiwyd gan asesiad tlodi bob dwy flynedd JRF yng Nghymru, o'i gymharu â 10 mlynedd yn gynharach bellach mae mwy o bob o oedran gwaith (yn arbennig oedolion ifanc) mewn tlodi a llai o blant a phensiynwyr⁴. Yn gyffredinol, roedd 700,000 o bobl ar gyfartaledd mewn tlodi yng Nghymru yn y tair blynedd hyd at 2014–15, sy'n gyfystyr â 23 y cant o'r boblogaeth.⁵

Pam fod tlodi o bwys

Mae tlodi'n niweidiol i'r rhai sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol ac i'n heconomi a'n cymdeithas. Mae cysylltiad rhwng tlodi â gwariant cyhoeddus ychwanegol ar iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a'r gwasanaethau heddlu a chyfiawnder troseddol yng Nghymru ar sail tua £3.6 biliwn y flwyddyn⁶, sy'n gyfystyr â dros 20% o gyllideb Cymru, gyda chostau ychwanegol yn sgil colli refeniw treth a chostau i'r systemau nawdd cymdeithasol.

Mae tlodi'n bwrw cysgod hir ar fywydau pobl. Mae iechyd meddwl a chorfforol gwaeth gan blant sy'n tyfu i fyny mewn aelwydydd incwm isel o'i gymharu â'r rhai sy'n tyfu i fyny mewn teuluoedd mwy cefnog, ac mae pobl sydd wedi wynebu tlodi neu sy'n byw mewn ardal ddifreintiedig â llai o flynyddoedd yn rhydd heb salwch neu anabledd ac maent yn debygol o farw'n gynt. Ym mhob cam o addysg, mae plant o gefndiroedd incwm isel yn cael canlyniadau is na rhai o gartrefi mwy cefnog, sy'n cynyddu'r risg y bydd tlodi'n cael ei drosglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall. Ac mae tlodi'n arafu twf economaidd, yn cyfyngu ar sgiliau a doniau sydd ar gael i gyflogwyr, yn lleihau enillion posibl sy'n effeithio ar refeniw treth y Trysorlys, ac yn arallgyfeirio adnoddau i ychwanegu at gyflogau isel y gellid eu defnyddio mewn ffyrdd eraill.

Twf economaidd i bawb

Dros y 30 mlynedd diwethaf, mae nifer o swyddi a oedd yn galluogi i weithwyr heb lawer o gymwysterau gefnogi eu teuluoedd i safon briodol wedi diflannu. Ar ben hyn, mae twf economaidd wedi bod yn anwastad yn ddaearyddol, nes bod lleoedd a effeithiwyd gan ddad-ddiwydiannu wedi cael trafferth codi'n ôl tra bod twf mewn lleoedd eraill wedi cynyddu costau tai.

Ers nifer o flynyddoedd y brif broblem yng Nghymru yw nifer annigonol o swyddi. Mae ymchwil o'r Unol Daleithiau wedi dangos pan fo'r galw am swyddi'n codi'n sylweddol, bod y rhai sy'n gweithio rhy ychydig o oriau am rhy ychydig o dâl wedi gweld y ddau'n gwella. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ffyniant wrth galon ei Rhaglen ar gyfer Llywodraeth.⁷ Gyda rhagolygon economaidd heriol, mae'r ymrwymiad hwn i'w groesawu'n fawr. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y bydd twf economaidd ar ei ben ei hun yn creu digon o swyddi, y gall pobl gael mynediad atynt nac y bydd ganddynt amodau a thelerau digonol i godi pobl allan o dlodi. Er mwyn i bawb a phob man elwa yn sgil ffyniant, rhaid i dwf fod yn gynhwysol.

Mae cyd-destun ffafriol y DU yn hollbwysig i lwyddiant economi Cymru. Blaenoriaeth gyntaf i Gymru yw sicrhau parhad cyllid o dan raglenni cronfeydd ariannol presennol yr UE fel rhan o'r trafodaethau ynglŷn â thynnu allan o'r UE. Yn y tymor hir, dylai Llywodraeth y DU glustnodi swm sy'n gyfystyr â derbyniadau

⁴ Tinson A and MacInnes T (2015) **Monitoring Poverty and Social Exclusion in Wales**. Sefydliad Joseph Rowntree: Efrog

⁵ Adran Gwaith a Phensiynau (2016) **Households Below Average Income**, 2014/15 Tabl 3.17ts

⁶ Amcangyfrifir bod cost tlodi i wasanaethau cyhoeddus yn y DU yn £69.2 bn. Yng Nghymru mae 5.26% o boblogaeth y DU sydd mewn tlodi cymharol o ran incwm 5.26% of £69.2 bn = £3.6 bn.

⁷ Llywodraeth Cymru (2016) **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021**

Cymru o gronfeydd strwythurol - tua £400 miliwn y flwyddyn⁸ - i ail-gydbwysu economi Cymru a chefnogi twf a chyflogaeth gynhwysol.

Ar sail y dystiolaeth yn adroddiad y DU, rydym yn argymhell:

Gwell Swyddi

Yn gyffredinol, mae bod mewn swydd yn cynnig y llwybr gorau allan o dlodi, ond nid yw'n sicrhau hynny. Yng Nghymru, mae canran y bobl sy'n byw mewn tlodi wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae mwyafrif y rhai sydd ar incwm isel bellach yn byw mewn aelwydydd sy'n gweithio. Gyda lefelau uchel o dan gyflogaeth yng Nghymru (ym Medi 2016, roedd tua 17% o weithwyr rhan amser yn chwilio am swyddi llawn amser ond yn methu â'u cael),⁹ mae angen rhoi blaenoriaeth i gynyddu oriau gwaith pobl. Ond mae mynd i'r afael â thlodi gwaith yn golygu cydnabod bod tâl isel yn mynd law yn llaw ag oriau isel i lawer gormod o bobl. Ar gyfartaledd, telir llawer llai i weithwyr rhan amser yng Nghymru, £8.12 yr awr (heb gynnwys tâl goramser) o'i gymharu â £12.26 yr awr.¹⁰ Mae bod yn aelod o undeb llafur yn rhoi rhywfaint o ddiogelwch yn erbyn tâl isel: yn y DU, mae aelod gwrywaidd o undeb yn ennill 3% yn fwy na rhywun nad yw'n aelod, tra bod aelod benywaidd o undeb yn ennill 9% yn fwy na rhywun nad yw'n aelod (gan reoli nodweddion i'r cyflogwr a'r unigolyn).¹¹

Mae ein hadolygiad o dystiolaeth yn argymhell y dulliau canlynol:

- Datblygu strategaethau sector gyda diwydiannau tâl isel i hybu eu cynhyrchiant. Dylent gynnwys cefnogi arloesedd, hybu sgiliau rheoli ac annog busnesau i ychwanegu mwy o werth at eu nwyddau a'u gwasanaethau. Hon yw'r unig ffordd gynaliadwy i gynyddu tâl yn y tymor hir.
- Mynd ati'n weithgar i annog arferion cyflogaeth sy'n lleihau tlodi. Mae hyn yn cynnwys cyflogwyr ac undebau llafur yn symud tuag at dalu o leiaf y Cyflog Byw'n wirfoddol i bob aelod o staff a chontractwr, gan gynnig sicrwydd swydd a gwaith rhan amser o ansawdd da, a darparu hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu a chadw at arfer gorau er mwyn dileu gwahaniaethu.
- Gweithredu yn erbyn cam-fanteisio. Mae llafur gorfodol, tâl sy'n is na'r isafswm tâl gofynnol a hunan gyflogaeth ffug yn fwy cyffredin mewn sectorau cyflog-isel / sgiliau-isel nag eraill. Dylid cynyddu mesurau gorfodaeth drwy ehangu ar weithgarwch gwrth-gaethwasiaeth Llywodraeth Cymru i fathau eraill o gam-fanteisio, ar y cyd ag asiantaethau statudol ac undebau llafur y DU.

Swyddi Lleol

Mae lle mae pobl yn byw yn dylanwadu ar eu rhagolygon o ran swyddi a pha mor effeithiol y mae gwaith yn cynnig llwybr allan o dlodi. Mae gwahaniaethau mawr ym marchnadoedd llafur Cymru - er enghraifft, mae nifer swyddi y pen ym Mlaenau Gwent hanner y cyfartaledd ym Mhrydain Fawr. Mae hyn yn golygu bod dull sy'n seiliedig ar leoedd i greu cyflogaeth briodol yn hanfodol. Mae ein hadolygiad o dystiolaeth yn awgrymu y dylid cymryd y camau gweithredu canlynol yng Nghymru:

- Blaenoriaethu twf cynhwysol yn y strategaethau ar gyfer rhanbarthau dinesig: dylai'r strategaeth ar gyfer rhanbarthau Caerdydd, Abertawe a Gogledd Cymru ganolbwyntio ar sicrhau bod pawb a phob lleoliad yn elwa ar dwf. Mae hyn yn cynnwys cysylltu pobl mewn cymunedau difreintiedig ag ardaloedd lle mae twf mewn swyddi drwy gludiant cyhoeddus cyflym, cyson a fforddiadwy, a sicrhau bod gan weithwyr difreintiedig y sgiliau a'r gefnogaeth i fanteisio ar gyfleoedd gwaith newydd.
- Symbylu twf mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru, yn cynnwys Cymoedd De Cymru, drwy gynlluniau datblygu economaidd sy'n seiliedig ar ardal. Fel rhan o hyn, dylid ystyried:

⁸ Ifan, G., Poole, E.G. and Wyn Jones, R. (2016) **Wales and the EU referendum: estimating Wales' net contribution to the European Union**, Canolfan Llywodraethiant Cymru: Caerdydd

⁹ Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) **Regional labour market statistics: H110 Headline indicators for Wales**, Medi

¹⁰ Annual Survey of Hours and Earnings, 2015. Cyrchwyd drwy NOMIS, 7 Hydref 2015

¹¹ JRF (2016) **UK Poverty: Causes, Costs and Solutions**, p. 145

- o datblygu Parth Menter Newydd ar draws holl ardal y cymoedd sy'n defnyddio pwerau cynllunio lleol a mentrau ariannol (yn cynnwys manteision treth) i hybu creu swyddi a gwaith i bobl sydd mewn risg o dlodi;
- o dynodi nifer penodol o 'glystyrau twf' mewn lleoliadau strategol mewn rhanbarthau dinesig. Er enghraifft, yn Rhanbarth Dinas Caerdydd gallai hyn gynnwys Merthyr Tudful i wrthbwyso'r pwyslais ar Gaerdydd.
- Cyflymu ac ehangu'r ymrwymiad i 'swyddi gwell, yn nes adref':¹² er mwyn i sefydliadau sefydlog lleol (e.e. awdurdodau lleol, prifysgolion ac ysbytai) ddefnyddio eu pŵer prynu i sicrhau mwy a gwell cyfleoedd gwaith i weithwyr difreintiedig a manteision lleol eraill.
- Ailffocysu cyllid busnes Llywodraeth Cymru ar dwf cynhwysol er mwyn annog busnesau i greu swyddi o ansawdd da o fewn pellter teithio rhesymol i ardaloedd lle mae'r prinder mwyaf.

Helpu pobl i fynd i waith

Mae cyflawni dyheadau o sicrhau cyflogaeth lawn, lleihau bylchau o ran cyflogaeth i bobl ag anabledd a lleiafrifoedd ethnig a hybu gwell safonau byw drwy waith yn galw am ail-lunio'r system cymorth cyflogaeth. Mae diffygion sylweddol yn y system bresennol, ac mae JRF yn argymhell y dylid rhoi'r un targed craidd i bob gwasanaeth cymorth cyflogaeth: lleihau tlodi drwy gyflogaeth ac enillion uwch.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ail-lunio cymorth cyflogaeth yn fan cychwyn sydd i'w groesawu, ond gellid mynd ymhellach i dargedu'n benodol ffyniant ymysg y lleiaf cefnog. Byddai hyn o bosibl yn cynnwys:

- Rhaglen cyflogadwyedd arfaethedig – dylai hon ddwyn ynghyd Raglen Waith ac Iechyd yr Adran Gwaith a Phensiynau a darpariaeth ddatganoledig. Dylid teilwra gwasanaethu yn ôl anghenion pobl drwy ddefnyddio'r dull segmentu sy'n cael ei argymhell yn strategaeth y DU, gan ddarparu lefelau amrywiol o gefnogaeth, yn dibynnu ar bellter pobl o'r farchnad lafur yn hytrach na'u hoed neu hawl i fudd-daliadau.¹³
- Dylid cynnig cefnogaeth arbenigol a rhaglen Marchnad Lafur Ganolraddol i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, gan gyfuno profiad gwaith (yn aml er budd y gymuned) gyda chefnogaeth barhaus a chwilio am swyddi, fel pont i gamu i'r brif farchnad lafur yn y pendraw.

Hybu Addysg a Sgiliau

Mae adeiladu cyfalaf dynol drwy addysg a hyfforddiant yn hanfodol nid yn unig i unigolion, ond i'r economi'n gyffredinol. Mae tystiolaeth dda fod sgiliau'n ffactor pwysig i hybu twf, ac mae lleihau canran yr unigolion sydd â sgiliau neu gymwysterau isel iawn yn fwy effeithiol na chanolbwyntio ar ben uchaf y sbectrum sgiliau'n economaidd¹⁴, yn ogystal ag ar gyfer unigolion.

Addysg Ragorol

Addysgu o'r radd flaenaf yw'r ffactor pwysicaf ar lefel ysgol sy'n effeithio ar gyrhaeddiad, ochr yn ochr ag ymgysylltu da â theluoedd a'r gymuned. Mae cael athro da o'i gymharu ag athro gwan yn arwain at gynnydd ychwanegol mewn blwyddyn. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi £100 miliwn yn ychwanegol i wella safonau ysgolion ac ehangu'r 'Cynnig i Ddisgyblion' mewn Ysgolion Her i'w groesawu. Ond mae mwy y gellid ei wneud – ar sail cynllun y DU, rydym yn argymhell:

- Cryfhau a chynyddu cysondeb o ran defnyddio Grant Amddifadedd Disgyblion - gwerthuso sut mae ysgolion yn defnyddio eu Grant Amddifadedd Disgyblion gan ganolbwyntio ar ymyriadau effeithiol;

¹² Llywodraeth Cymru (2016) **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021**

¹³ JRF (2016) **UK Poverty: Causes, Costs and Solutions**, p. 172

¹⁴ Jones, I. (2016) **Improving the Economic Performance of Wales: Existing Evidence and Evidence Needs**. Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, Caerdydd

- Gwella safon addysg ac arweinyddiaeth, gan ddefnyddio amrywiaeth o gynlluniau recriwtio, tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio - yn cynnwys pecyn cymorth Sefydliad Gwaddol Addysgol - a datblygiad proffesiynol;
- Hybu camau i wella canlyniadau i blant ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau a phlant Sipsiwn, Teithwyr a Sipsiwn Roma, yn cynnwys lleihau nifer y gwaharddiadau.

Gwell Prentisiaethau

Mae prentisiaethau'n un o'r polisiau pwysicaf i helpu pobl i swyddi o ansawdd da ac i lwybrau gyrfa llwyddiannus. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu o leiaf 100,000 o brentisiaethau bob-oed, ansawdd uchel yn gam mawr, ond hefyd mae ein hadolygiad o dystiolaeth yn awgrymu y dylid rhoi blaenoriaeth i gynyddu ansawdd - a mynediad at - brentisiaethau. Ar sail ein tystiolaeth ar y DU, rydym yn argymhell:

- Cysylltu cyllid â chanlyniadau: dylid cysylltu cyllid ar gyfer prentisiaethau â sicrhau cyflogaeth gynaliadwy neu symud ymlaen i hyfforddiant lefel-uwch;
- Sefydlu Siarter Prentis sy'n amlinellu'r safonau, y gefnogaeth a'r canlyniadau y gall prentis eu disgwyl mewn sector penodol;
- Cynnwys dysgu achrededig - dylai darparwyr prentisiaethau gynnig dysgu sgiliau Cymraeg/Saesneg a mathemateg a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn ogystal â hyfforddiant yn y gwaith;
- Cysylltu prentisiaethau â datblygiad - dylai cyflogwyr sicrhau bod prentisiaethau'n arwain at lwybrau datblygiad clir.

Cynyddu cyfranogiad mewn dysgu sgiliau hanfodol

Yn 2010, roedd tua 216,000 o oedolion yn meddu ar sgiliau llythrennedd is na Lefel 1 ac roedd gan tua 918,000 o oedolion sgiliau rhifedd is na'r lefel honno.¹⁵ Yn 2014/15, nid yw bron i un o bob pum oedolyn - tua 470,000 o bobl - yn cyrchu'r rhyngwrdd, a diffyg sgiliau yw'r rheswm pennaf.¹⁶ Gweithiodd Rhaglen Sgiliau Hanfodol yn y Gwaith 2010-2015 gyda mwy na 21,000 o ddysgwyr, gydag un o bob pump o'r rhain yn dweud eu bod wedi cael cynnydd mewn tâl o ganlyniad i gymryd rhan yn y rhaglen, a bron i draean yn dweud bod eu rhagolygon wedi gwella.¹⁷

Ein huchelgais yw diwallu holl anghenion llythrennedd, rhifedd a digidol oedolion erbyn 2030, a bydd hyn yn galw am gynyddu gweithgarwch.

Gwella darpariaeth dysgu i oedolion

Unwaith y mae pobl mewn gwaith, y mae marchnad lafur hyblyg Cymru'n galw am weithwyr sy'n hynod o hyblyg, sy'n golygu bod mynediad at hyfforddiant ac ail-hyfforddiant drwy gydol eu bywyd o oedran-gweithio'n bwysig. Mae hyfforddiant yn cael effaith amlwg ar enillion hefyd. Canfu ein hadolygiad o dystiolaeth fod symud o gymhwyster lefel dau i lefel tri yn gysylltiedig â chynnydd rhwng 2 a 15 pwynt canrannol o siawns o gael gwaith, a chynnydd o 9 a 11 pwynt canrannol o ran enillion.

Rydym yn argymhell y dylid gwella darpariaeth sgiliau oedolion a'u cyfeirio tuag at leihau tlodi drwy:

¹⁵ Llywodraeth Cymru (2011) **Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru 2010**

¹⁶ Llywodraeth Cymru (2015) **Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15: Defnyddio a chyrru'r rhyngwrdd**, Bwletin Ystadegol SB 97/2015

¹⁷ Starks, L. et al (2016) **Evaluation of Essential Skills in the Workplace 2010-2015**, Llywodraeth Cymru: Caerdydd

- Dargeddu adnoddau ar angen ac amgylchiadau personol, yn hytrach nag oed cyfranogwyr a lefel cymhwys blaenorol;
- Canolbwyntio ar ganlyniadau fel incwm cyfranogwyr a chynhyrchiant cyflogwyr, nid ar y cymwysterau a sicrhawyd yn unig;
- Mwy o dryloywder o ran canlyniadau a sicrhawyd gan ddarparwyr fel y gall cyfranogwyr ac arianwyr wneud dewisiadau cytbwys.

Cyngor o Ansawdd Da

Mae cyngor o ansawdd da yn helpu pobl i gael hyd i waith sy'n gwneud y defnydd gorau o'u sgiliau. Mae paru'r cyflenwad a'r galw am lafur yn gallu gwella cynhyrchiant yn sylweddol - gallai gwelliant o un pwynt canrannol mewn cynhyrchiant greu hyd at £10.6 biliwn y flwyddyn o ran cynnydd yng nghynhyrchiant y DU. Gall disgyblion ysgol, pobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd elwa ar gyfarwyddyd ynglŷn â dewisiadau a datblygiad.

Mae bylchau sylweddol yn y cyngor a ddarperir ar hyn o bryd ar yrfaeodd. Rydym yn argymhell y dylid cynnal adolygiad annibynnol o'r cyngor a ddarperir ar yrfaeodd a datblygiad yng Nghymru i nodi'r ffordd orau i sicrhau bod:

- Pob ysgol a choleg yn darparu cyngor arbenigol, o ansawdd da ar yrfaeodd i bobl ifanc;
- Oedolion yn gallu cael mynediad at gyngor annibynnol, personol a gwasanaethau cefnogi i alluogi i weithwyr ar gyflog isel symud ymlaen i swyddi ar gyflogau uwch.

Cryfhau Teuluoedd a Chymunedau

Mae teuluoedd a chymunedau'n gallu cynnig amddiffynfa hanfodol yn erbyn caledi materol ac emosiynol, yn aml dyma'r ffynonellau cefnogaeth cyntaf a mwyaf dibynadwy. Mae teuluoedd yn helpu i atal tlodi mewn nifer o wahanol ffyrdd, trwy ddarparu gofal plant, cynnig cymorth ymarferol ac ariannol, a chynnig cyngor a chysylltiadau. Mae sefydlogrwydd teuluol yn galluogi i blant ffynnu ac mae dau riant, sy'n byw gyda'i gilydd, mewn sefyllfa well i ennill digon i gael safon byw weddus. Pan fo teuluoedd yn chwalu mae mwy o risg o dlodi, yn arbennig tlodi cyson. Dylid gosod nod i helpu rhieni i aros gyda'i gilydd os yw'n bosibl a phan nad yw hynny'n bosibl, dylid helpu rhieni i wahanu a bod yn rhieni da.

Bywyd teuluol a pherthnasoedd cadarnach

Mae tystiolaeth rymus fod tlodi'n creu pwysau ar berthynas yn golygu y dylai lleihau tlodi fod yn nod cefnogi craidd i blant a theuluoedd. Mae Teuluoedd yn Gyntaf a Chanolfannau Plant Integredig wedi gwneud cyfraniad pwysig hyd yma, ac mae bwriad Llywodraeth Cymru i barhau a datblygu rhaglenni rhianta, er mwyn helpu i leihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a buddsoddi mewn iechyd meddwl plant a phobl ifanc i'w groesawu.

Ar sail y dystiolaeth, rydym yn argymhell:

- Datblygu ymhellach wasanaethau cefnogi perthynas, yn seiliedig ar werthusiadau fel y Cynlluniau Treialu Tlodi Plant ar gyfer Teuluoedd sy'n Gwahanu¹⁸;
- Datblygu gwasanaeth cefnogi rhianta, yn cynnwys cefnogaeth benodol i deuluoedd lle mae plant ag anhwylderau ymddygiadol;
- Parhau i wella gwasanaethau iechyd meddwl, yn cynnwys cefnogaeth i les plant mewn ysgolion, ar gyfer plant a rhieni newydd.

¹⁸ JRF (2016) **UK Poverty: Causes, Costs and Solutions**, p. 96

Blynyddoedd cynnar ffyniannus

Datblygwyd consensws ynglŷn â phwysigrwydd ymyrraeth gynnar, yn enwedig o ran addysg plentyndod cynnar. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnis 30 awr o ofal plant i rai tair a phedair oed, ac addewid Ysgrifennydd Addysg y Cabinet i ddyblu Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar. Dylai'r ymrwymadau hyn fod yn rhan o broses radical i ddiwygio gofal plant fel y nodir yng nghynllun y DU. Dylai'r prif elfennau gynnwys:

- Gwella darpariaeth: dylid datblygu'r cynnis arfaethedig i blant tair a phedair oed i ystyried anghenion rhieni incwm isel plant dwy oed. Dylai pymtheg awr o ofal plant fod am ddim, gydag oriau ychwanegol ar gael am ddim i rieni ar incwm isel sy'n gweithio, yn hyfforddi neu'n chwilio am waith ac ar sail raddfa dâl symudol i eraill. Dylid cyflwyno rhaglen gynhwysol i blant ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau;
- Gwella ansawdd: mae ansawdd gofal yn hanfodol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i dlodi a dylid datblygu gweithlu â chymwysterau llawn, wedi ei harwain gan raddedigion, gyda rhwydweithiau cefnogi lleol i ddarparwyr er mwyn hybu arfer gorau;
- Datganoli: dylai gwariant ar ddarparu gofal plant gael ei gyllido'n rhannol drwy ddatganoli is gymhorthdal presennol ar gyfer galw sy'n cael ei reoli ar hyn o bryd gan San Steffan.¹⁹

Ysgogi gweithredu cymunedol

Mae gan grwpiau cymunedol a ffydd rôl hanfodol i hwyluso a hybu cymunedau a dinasyddion i leihau tlodi drwy Gymru. Rydym yn argymhell y dylid ysgogi gweithredu cymunedol, lleol i sicrhau ffyniant heb dlodi, a'i gefnogi drwy:

- Gynnwys pobl sydd â phrofiad ymarferol o dlodi wrth lunio polisiau a chymau gweithredu lleol, e.e. drwy *Poverty Truth Comissions* fel y'u sefydlwyd yn Leeds a Glasgow;
- Awdurdodau lleol i sicrhau cydlyn strategol a, ynghyd â chyllidwyr, darparu cefnogaeth ariannol neu mewn da ar gyfer datrysiadau gwirioneddol sy'n cael eu harwain gan y gymuned;
- Meithrin cysylltiadau rhwng grwpiau cymunedol a darparwyr gwasanaeth cyhoeddus i greu ffyniant a lleihau tlodi'n lleol.

Torri costau

Os nad oes adnoddau digonol i ddiwallu anghenion sylfaenol, yna mae lleihau costau'r anghenion hynny'n elfen hanfodol o safbwynt lleihau tlodi. Mae gan rai pobl anghenion ychwanegol oherwydd eu hamgylchiadau personol, megis anabled neu lle maent yn byw, ac mae hynny yn ei dro'n achosi costau ychwanegol. Mae costau hefyd yn cael eu dylanwadu gan y ffordd y mae pobl yn cael mynediad at nwyddau a gwasanaethau hanfodol, ac yn talu amdanynt. Er enghraifft, drwy ddefnyddio'r rhyngwyd neu ddebydau uniongyrchol.

Tai

Costau uchel tai yw achos tlodi i 100,000 ychwanegol o bobl yng Nghymru, gyda diogelwch ac ansawdd y tai'n elfen bwysig ar gyfer rhagolygon tymor hir y teulu. Mae adroddiad y DU wedi nodi'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer gweithredu gan y llywodraeth.

Mae prinder cartrefi ers tro yng Nghymru. Nid yw datblygwyr preifat wedi bodloni'r galw felly mae'r sector rhent cymdeithasol yn gorfod bodloni'r angen. Rydym yn croesawu nod Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy (yn cynnwys 6,000 i helpu i brynu cartrefi) n y pum mlynedd nesaf), ond mae nifer y tai rhent cymdeithasol yn brin o'r ffigwr o 3,500 y flwyddyn y rhagwelir y bydd ei angen.

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol:

¹⁹ Fel yr elfen gofal iechyd o greydau treth, talebau gofal plant a gefnogir gan y cyflogwr, a'r cynllun gofal plant di-dreth

- Flaenoriaethu'r cyflenwad o dai fforddiadwy gwirioneddol ymhellach i ddiwallu angen wedi ei asesu'n wrthrychol;
- Adolygu rhenti cymdeithasol i gyd-fynd ag incwm ac enillion lleol;
- Cyflawni ei addewid i roi diwedd ar yr hawl i brynu;
- Parhau ymdrechion i annog landlordiaid preifat i wella cyflwr a fforddiadwyedd yn y sector tai rhent preifat;
- Cynnig iawndal i denantiaid sy'n cael eu heffeithio gan y gosb tan-feddiannaeth ac sydd naill ai'n fodlon symud ond yn methu â gwneud hynny oherwydd nad oes eiddo addas ar gael, neu sydd angen lle ychwanegol oherwydd anghenion arbenigol yn deillio o anabledd neu gyfrifoldebau rhianta a rennir.

Torri costau hanfodion

Mae gostwng cost nwyddau a gwasanaethau hanfodol, fel bwyd, dŵr a thanwydd domestig, yr un mor bwysig â chynyddu incwm unigol ac aelwydydd. Mae rhai pobl ar incwm isel yn gorfod talu mwy am hanfodion, costau cynyddol aelwyd hyd at 10%²⁰. Mae'r gallu i reoli arian yn bwysig ond nid yw'n gwneud iawn am beidio â chael digon.

Mae adroddiad y DU yn argymhell y dylid sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n well ar gyfer aelwydydd ar incwm isel, drwy reoleiddio effeithiol ac arfer busnes da. Yng Nghymru, rydym yn argymhell:

- Cefnogi arloesedd o ran darparu nwyddau a gwasanaethau hanfodol o werth da;
- Mwy o weithredu ar y cyd i dorri costau fel newid torfol o safbwynt darparwr ynni.

Torri costau gwasanaethau galluogi

I ymdopi'n llwyddiannus â marchnadoedd, mae angen i bobl gael mynediad at nwyddau a gwasanaethau sy'n hwyluso, sef y rhynggrwyd, cludiant a chynhyrchion ariannol. Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr wasanaeth a threfn reoleiddio ar lefel y DU gyfan, ond o fewn Cymru rydym yn argymhell:

- Y dylid rhoi blaenoriaeth i fforddiadwyedd a hygyrchedd o ran cludiant cyhoeddus: Dylai'r tâl ar y Metro arfaethedig fod yn fforddiadwy. Dylid adolygu rhwydweithiau bus lleol a chymhell gweithredwyr i ddarparu mynediad at gyrchfannau gwaith a hyfforddiant a gwasanaethau hanfodol.
- Datblygu'r farchnad cyllid cymdeithasol (undebau credyd a'r diwydiant cyllid cyfrifol): dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar ei hymrwymiad drwy annog cynlluniau fforddiadwy rhentu-i-brynu ar gyfer offer aelwydydd ac opsiynau ar gyfer y rhai y gwrthodir credyd iddynt.
- Gwella'r ddarpariaeth cyngor ariannol: dylid o leiaf cadw lefelau darparu presennol gwasanaethau cyngor ariannol dielw, a gwneud cynnydd i wella ansawdd ac argaeledd yn unol â'r Adolygiad o Wasanaethau Cyngor.
- Gwella fforddiadwyedd mynediad at y rhynggrwyd: yn ogystal â pharhau i wella mynediad ffisegol ar y band eang, dylai Llywodraeth Cymru a darparwyr leihau costau mynediad.

Lleihau galw

Gellir hefyd lleihau costau drwy dorri'r galw, gan arbed arian i aelwydydd a lleihau'r risg o dlodi yn y dyfodol. Ar sail yr argymhellion yn adroddiad y DU, rydym yn argymhell:

- Mesurau effeithlonrwydd ynni: dylai cymorth i wella effeithlonrwydd ynni fod ar gael ym mhob aelwyd incwm isel sy'n byw mewn cartrefi anodd-eu-gwresogi, nid yn unig i'r rhai sy'n

²⁰ Hirsch, D. (2013) **Addressing the poverty premium: approaches to regulation**. Consumer Futures: Llundain

derbyn budd-daliadau di-waith ac sy'n cynnwys unigolyn bregus fel y cynigiwyd.²¹ Dylid cymell landlordiaid sector preifat i wella effeithlonrwydd ynni yn eu heiddo;

- Agyfeiriadau: dylai gweithwyr proffesiynol iechyd ac asiantaethau cynghori allu atgyfeirio aelwyd i gynllun Nyth;
- Dŵr: Dylai Dŵr Cymru weithio gydag eraill i annog aelwydydd bach i newid i fesuryddion dŵr a fyddai'n lleihau'r biliau.

Anghenion cymhleth

Mae grŵp cymharol fach o bobl a theuluoedd mewn tlodi sy'n wynebu heriau ychwanegol a chymhleth. Gallai hyn gynnwys cyflyrau iechyd meddwl, digartrefedd, profiadau o drais a chamdriniaeth, camddefnyddio sylweddau ac ymwneud â'r system cyfiawnder ieuencid. Rydym hefyd yn cynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid oherwydd eu bod yn aml yn wynebu heriau ychwanegol a chymhleth. Yn aml mae amgylchiadau'r grwpiau hyn yn gorgyffwrdd a rhyngweithio, sy'n golygu bod dianc rhag tlodi'n anodd ac weithiau'n golygu eu bod mewn risg o fod ar y clwt.

Mae gwreiddiau strwythurol yr anghenion cymhleth hyn yn cael eu hamlygu gan y crynhoad cryf mewn ardaloedd o ddirywiad economaidd hirdymor. Felly'r mesur atal mwyaf effeithiol yw lleihau tlodi materol ei hun, yn arbennig ymysg teuluoedd â phlant a phobl ifanc ddi-waith sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig

Mae pum egwyddor yn sail i'r dull yr ydym yn ei argymhell ar gyfer grwpiau sy'n wynebu tlodi ar y cyd ag anghenion cymhleth:

1. Personoli - mae angen seilio'r gefnogaeth ar y person cyfan neu'r teulu cyfan;
2. Dad-sefyliadeiddio - tai a chyflogaeth gyffredin, prif lif cyn belled ag y bo'n bosibl, gyda chefnogaeth yn ôl yr angen;
3. Ail-integreiddio - dechrau gweithio a lleoliadau cymdeithasol cyffredin;
4. Seiliedig ar asedau - adeiladu ar gryfderau presennol yr unigolyn; ac
5. Wedi ei ddylanwadu gan dlodi - delio â chaledi ariannol a materol, ochr yn ochr ag anghenion cymhleth fel caethiwed.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at ddiwallu anghenion pobl ag anghenion cymhleth ac rydym yn croesawu'r darpariaethau yn Neddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a'r cynllun 'Pan Rwy'n Barod' ar gyfer rhai sy'n gadael gofal. Serch hynny, mae'n bosibl gwneud mwy, ac rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:

- Ehangu model Tai'n Gyntaf²² fel y model diodyn ar gyfer oedolion digartref ag anghenion cymhleth, gydag awdurdodau lleol
- Datblygu rhaglenni Lleoliad a Chefnogaeth Unigol (IPS) ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd meddwl difrifol fel rhan o'i hymrwymiad i ail-lunio cymorth gyda chyflogadwyedd, a phrofi effeithiolrwydd y rhaglen ar gyfer pobl sydd mewn sefyllfa gronig o ran digartrefedd, camddefnyddio sylweddau neu gefndiroedd o drosedd;
- Gwella canlyniadau i'r rhai sy'n gadael gofal trwy wella trefniadau llety a chefnogaeth i bobl ifanc nad ydynt yn dymuno byw gyda'u gofalywyr; ac ystyried Premiwm Cyfiawnder Troseddol fel arian ychwanegol ar gyfer cyfrifon cynilo ar gyfer pobl fanc sy'n derbyn gofal;
- Parhau i gefnogi teuluoedd ag anghenion cymhleth, fel Teuluoedd yn Gyntaf, yn seiliedig ar elfennau o lwyddiant sydd wedi eu sefydlu, yn cynnwys gweithwyr penodol ar gyfer teulu a dull 'teulu cyfan'.
- Buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â thlodi mewn teuluoedd os oes pryder bod plentyn yn cael ei gam-drin, ac ymyrryd yn gynnar i atal hynny.

²¹ Llywodraeth Cymru (2016) **Cynllun tlodi tanwydd a arweinir gan alw yn y dyfodol i olyn Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru - Nyth.**

²² JRF (2016) **UK Poverty: Causes, Costs and Solutions**, p. 234

Sicrhau ei fod yn Digwydd

Mae ein dull yn cynnwys pobl o bob cefndir wrth sicrhau ffyniant heb dlodi. Mae gan lywodraethau rôl arweiniol i osod blaenoriaethau a darparu'r fframwaith, ond mae gan fusnesau, dinasyddion a chymunedau ran hanfodol i'w chwarae hefyd. Ar y lefel leol, mae gan y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus newydd rôl allweddol i sicrhau bod hyn yn digwydd, gan weithio ar draws yr holl sectorau. Rydym am i bob sefydliad weithio gyda'i gilydd a gweithredu.

Cyrff sy'n cael eu noddi'n gyhoeddus a gan y llywodraeth

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau'r broses gyda'i hymrwymiad i sicrhau ffyniant i bawb, cynlluniau i ddiwygio gofal plant a chynigion ynglŷn â chyflogadwyedd a sgiliau. Rhaid iddi gefnogi ei harweinyddiaeth ar y materion hyn drwy sicrhau ei bod yn darparu'n effeithio ar lawr gwlad, boed yn uniongyrchol neu drwy eraill.

Mae cyfraniad llywodraeth leol yn hanfodol, fel darparwr rheng flaen addysg a gwasanaethau cymdeithasol a gyda'u rôl arweinyddiaeth gymunedol mae ganddynt broffil a chysylltiad heb ei ail mewn lleoedd difreintiedig.

Ychwanegwch at hyn rôl allweddol byrddau iechyd, colegau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch ac mae llawer iawn y gall ac y dylai'r sector cyhoeddus ei wneud.

Unedau llafur, busnesau, cyflogwyr a darparwyr nwyddau a gwasanaethau hanfodol

Mae datrys tlodi'n gyfystyr â busnes da. Mae lles gweithwyr, a gweithlu gyda llai o bryder ariannol yn gysylltiedig â pherfformiad da. Cydnabyddir yn eang fanteision ymwneud da â gweithwyr. Trwy greu swyddi a darparu cynhyrchion o werth da mae busnesau eisoes yn cyfrannu at leihau tlodi.

Ond mae mwy yn bosibl.

Er bod dros hanner cyflogaeth y sector preifat yng Nghymru'n fusnesau bach i ganolig, mae pethau y gallan nhw, ynghyd â'r holl gyflogwyr, eu hystyried a allai wneud gwahaniaeth. Ac mae sgôp tebyg i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Mae Rhanbarthau Dinesig Caerdydd, Bae Abertawe a Gogledd Cymru'n gyfle cyffrous i adeiladu ymrwymiad i arfer gorau o ran cyflogaeth er mwyn lleihau tlodi o'r cychwyn cyntaf. Ac mae gan undebau, trwy gynrychioli gweithwyr a bod yn weithredol yn y gymuned ehangach, rôl allweddol i'w chwarae i wella amodau a thelerau a hyrwyddo cymdeithas deg.

Mae camau gweithredu i gyflogwyr ac undebau'n cynnwys:

- Tâl: symud tuag at fod yn gyflogwr gwirfoddol achrededig Cyflog Bywd pryd bynnag y bo'n bosibl, gan adeiladu ar yr ymrwymiad a wnaed eisoes gan 70 a mwy o gyflogwyr achrededig gan y Sefydliad Cyflog Byw, yn ogystal â dwsinau o gyflogwyr heb eu hachredu.
- Sicrwydd: Cynyddu sicrwydd swyddi a rheolaeth gweithwyr dros batrymau gwaith, defnyddio oriau-sero, contractau oriau byw a dros dro pan fo hynny'n hanfodol yn unig i reoli newid yn y galw, cynnig y dewis o gontractau isafswm oriau ar gyfer gwaith rheolaidd, ac ymgynghori ar batrymau gweithio sifft gydag unigolion i'w helpu i gynllunio eu bywydau.
- Hyblygrwydd: Ystyried trefniadau gwaith hyblyg wrth recriwtio, gan wneud y mwyaf o ganran swyddi hyblyg a rhan amser o ansawdd da.
- Hyfforddiant, datblygiad a chynnydd: Cynyddu cyfleoedd ar gyfer gweithwyr ar dâl isel drwy fynediad at hyfforddiant a datblygiad, manteisio ar hyfforddiant yn y gwaith Llywodraeth Cymru a chynlluniau eraill sydd ar gael, gweithio gyda staff i oresgyn rhwystrau rhag gwneud cynnydd fel patrymau sifft, a hybu cyfleoedd i gael dyrchafiad yn y gwaith, sicrhau bod hyfforddiant ar gael i weithwyr rhan amser.
- Buddion ymylol: Cyflwyno ac annog gweithwyr ar raddfeydd tâl is i fanteisio ar fuddion ymylol fel benthyciadau tocyn tymor, mynediad at gynlluniau cynilo a chredyd fforddiadwy (e.e. drwy bartneriaeth Undeb Credyd), mynediad at gyngor ariannol a (blaendaliadau rhent).

Gall busnesau a chyrrff sector cyhoeddus hefyd weithredu, er enghraifft:

- Y gadwyn gyflenwi: Defnyddio eu pŵer prynu i gefnogi economïau a mentrau lleol a gweithredu hefyd os deuir o hyd i dystiolaeth o gam-fanteisio a llafur gorfodol yn eu cadwyn gyflenwi;

- Osgoi dyled bersonol rhag cynyddu: Nodi os oes cwsmeriaid yn cael trafferth talu, gweithio gyda chwsmeriaid yn gynnar rhag i ddyledion gynyddu a chostau casglu dyledion busnes, a chyfeirio cwsmeriaid at sefydliadau annibynnol a gwirfoddol sy'n cynnig cymorth a chyngor ynglŷn â dyledion a chyllid personol. Ar gyfer y rhai sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, gweithio gyda nhw'n gynnar drwy gynlluniau adfer dyledion personol a gweithio gyda darparwyr eraill ar ddulliau cydlynol o ymdrin ag amserlenni ad-dalu dyledion;
- Gwneud gwasanaethau rheng flaen yn fwy ymatebol: Hyfforddiant gwasanaethau cyhoeddus a datblygu staff rheng flaen i weithio gyda phobl mewn tloidi mewn ffyrdd cadarnhaol personol, gan adlewyrchu'r ymrwymiad ehangach yng Nghymru tuag at gyd-gynhyrchu, a helpu unigolion i gael y gwasanaethau a'r cymorth sydd ei angen arnynt i symud allan o dlodi;
- Landlordiaid cymdeithasol: Cydnabod rôl ganolog tai, dylai landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru barhau i ddatblygu eu hymrwymiad i weithio gyda thenantiaid ac eraill i ddod o hyd i lwybrau allan o dlodi drwy ddarparu cartrefi fforddiadwy, sicrhau'r incwm uchaf posibl, cyfleoedd gwaith a lleihau costau.

Dinasyddion a chymunedau

Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru - boed drwy weithio'n galed yn yr ysgol, symud ymlaen i addysg bellach a hyfforddiant, neu ddod o hyd i waith. Ond yn rhy aml, mae'r bobl o bortreadir mewn tloidi'n adlewyrchu'r straen a'r pwysau y maent yn ei wynebu. Yn aml, teuluoedd a ffrindiau sy'n eu hamddiffyn rhag wynebu tloidi, ond os nad yw hynny'n bosibl, mae gan rwydweithiau cymdeithasol, elusennau, busnesau cymdeithasol a chymunedau ran hanfodol i'w chwarae. Mae nifer o grwpiau yng Nghymru eisoes yn gosod tloidi wrth galon yr hyn y maent yn ei wneud ac mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr ysgogiad i annog mentrau cymdeithasol a'r ystod eang o gynlluniau cymunedol yn ffynhonnell barhaus o egni. Er mwyn i hyn ddatblygu, dylai grwpiau cymunedol, ffydd a'r sector gwirfoddol:

- Gynnwys pobl gyda phrofiad ymarferol o dlodi fel arbenigwyr a phartneriaid wrth lunio camau gweithredu;
- Trefnu'n lleol ar sail rhaglen gyffredin i leihau tloidi;
- Cryfhau perthnasoedd cymunedol a mynd i'r afael â rhwystrau fel unigrwydd, ynysu a stigma;
- Hwyluso ffyrdd i rannu neu leihau costau byw, dysgu sgiliau neu grefft, a gwneud y mwyaf o botensial trefniadau ariannol lleol;
- Cydlynu gwasanaethau a chyngor lleol rhag bod pobl yn cael eu symud o'r naill le i'r llall.